GWEITHDREFN AR GYFER GWRANDAWIADAU PWYLLGOR DISGYBLU/ADDASRWYDD I YMARFER

1. Rydym yn cydnabod y gallai honiad o gamymddwyn yn eich erbyn beri straen a gofid. Mae cyngor a chymorth ar gael gan:

   - Undeb y Myfyrwyr - Home (ukmsl.net)
   - Gwasanaethau Myfyrwyr - https://advice.southwales.ac.uk/cyngor/a2z/student-services/
   - Y Gaplaniaeth - https://chaplaincy.southwales.ac.uk/caplaniaeth/
   - Cyngor Mewnfudo a Myfyrwyr Rhyngwladol - https://intadvice.southwales.ac.uk/

   Mae'r weithdrefn ar gyfer gwrandawiad Pwyllgor Disgyblu/Addasrwydd i Ymarfer wedi'i hamlinellu yn y ddogfen hon ond os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr (studentcasework@southwales.ac.uk). Bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr hefyd yn rhoi arweiniad ychwanegol i chi ar sut i baratoi ar gyfer y gwrandawiad a'r hyn y gallwch ei ddisgwyl ar y diwrnod.

2. Mae gwybodaeth am aelodaeth a swyddogaeth y pwyllgorau ar gael yn y Rheoliadau Camymddygiad Anacademaidd. Byddwch yn cael gwybod enwau aelodau'r Pwyllgor cyn i'r ddogfennaeth gael ei chylchredeg ac yn cael cyfle i godi unrhyw bryderon, er enghraifft os ydych yn credu y gallai aelod fod yn rhagfarnllyd[1].

3. Fel arfer, bydd gwrandawiad y Pwyllgor yn digwydd ymhen 20 diwrnod gwaith o atgyfeiriad yr achos gan y gyfadran. Byddwch yn cael y dyddiad ar gyfer y gwrandawiad gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr heb fod yn llai na 10 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Gall y Brifysgol ymestyn yr amserlen hon mewn amgylchiadau eithriadol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) os ydych wedi gofyn am gynrychiolaeth gyfreithiol. Os oes angen dyddiad diwygiedig arnoch, am reswm da, bydd y gwrandawiad yn cael ei aildrefnu unwaith yn unig. Mae'n rhaid i chi hysbysu'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr o leiaf 48 awr cyn y gwrandawiad gwreiddiol os oes angen dyddiad diwygiedig arnoch.

4. Os nad ydych chi'n dymuno bod yn bresennol yn y gwrandawiad, neu os nad ydych chi'n gallu gweud hynny, bydd y gwrandawiad yn digwydd yn eich absenoldeb; lle mae hyn yn wir, fe'ch cynghorir yn gryf i ddarparu cyflwyniad ysgrifenedig.

5. Gallwch gyflwyno cais am amgylchiadau esgusodol os ydych yn credu bod yr achos wedi effeithio ar eich astudiaethau academaidd. Ni fydd angen i chi ddatgelu manylion yr honiad yn eich erbyn gan y gall yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr ddarparu llythyr i gefnogi eich cais.

[1] Golyga hyn fod gennych reswm i gredu y gallai cyfranogiad un neu fwy o aelodau'r Pwyllgor, yn fwriadol neu'n anfwriadol, effeithio ar degwch y penderfyniad.

6. Caniateir i chi gael person cymorth gyda chi yn y gwrandawiad; er enghraifft, swyddog o Undeb y Myfyrwyr, aelod staff o'r Gaplaniaeth, neu ffrind. Rôl y person cymorth yw darparu cefnogaeth yn ystod eich gwrandawiad. Fel arfer, nid eich cynrychioli chi yw eu rôl nhw, nac eirioli ar eich rhan na siarad ar eich rhan, oni bai bod hyn wedi cael ei gytuno fel addasiad rhesymol oherwydd anabledd.

7. O leiaf 48 awr cyn y gwrandawiad, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Brifysgol am enw a statws y person sy'n dod gyda chi. Argymhellir yn gryf eich bod yn ceisio cymorth gan Undeb y Myfyrwyr neu'r Gaplaniaeth gan eu bod yn annibynnol ac yn gyfarwydd â Rheoliadau a Gweithdrefnau'r Brifysgol.

8. Mae'r Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cadw'r hawl i wrthod presenoldeb person cymorth os penderfynir bod gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â'r person enwebedig, ac os felly, rhoddir cyfle i chi enwebu person cymorth gwahanol.

9. Ni allwch anfon unrhyw un arall i'r gwrandawiad ar eich rhan.

10. Nid yw Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau Prifysgol De Cymru yn gyfreithiol eu natur, ac felly ni ddylai fod angen person cymorth neu gynrychiolydd sydd â chymwysterau cyfreithiol arnoch yn y gwrandawiad. Fodd bynnag, gallwch ofyn am gyngor, heb ragfarn, lle mae achos yn arbennig o gymhleth, ac mae'r canlyniad posibl yn ddifrifol.

11. Er nad oes gennych hawl awtomatig i berson neu gynrychiolydd sydd â chymwysterau cyfreithiol, os ydych am gael eich cefnogi/cynrychioli mewn gwrandawiad, rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawiad (studentcasework@southwales.ac.uk). Rhaid i chi gynnwys enw'r cynrychiolydd arfaethedig a'r rhesymeg dros eich cais. Gweler Gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer Ystyried Ceisiadau am Gynrychiolaeth Gyfreithiol am ragor o wybodaeth.

13. Gallwch alw tystion i gefnogi'ch achos. Rhaid hysbysu'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr am unrhyw dystion a fydd yn mynychu o leiaf 48 awr cyn y gwrandawiad. Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw dystion yr hoffech eu galw yn cael gwybod am y dyddiad, yr amser a'r lleoliad ar gyfer y gwrandawiad.

14. At ddibenion y Weithdrefn hon, a lle bo'n berthnasol, mae'r person a wnaeth yr honiad cychwynnol (y Parti sy'n Adrodd) yn cael ei ystyried yn dyst. Gwahoddir y Parti sy'n Adrodd i fynychu'r gwrandawiad. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol iddynt fod yn bresennol ac o ganlyniad gallent wrthod unrhyw wahoddiad o'r fath.

15. Gall y Brifysgol ofyn i aelodau staff ac unrhyw bersonau eraill sy'n berthnasol i'r achos i fynychu'r gwrandawiad fel tystion. Fe'ch hysbysir o enwau unrhyw dystion cyn y gwrandawiad.

16. Gall y gwrandawiad ddigwydd yn bersonol neu drwy ddulliau electronig. Mae'n rhaid i unrhyw barti sydd angen presenoldeb mewn gwrandawiad drwy ddulliau electronig hysbysu'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn ysgrifenedig, heb fod yn hwyrach na phum diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Lle cytunwyd ar hyn, bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor cyn y gwrandawiad ac yn trefnu hyn gyda'r unigolion cysylltiedig.

17. Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon copi atoch chi ac aelodau'r Pwyllgor o'r holl

ddogfennau a dderbyniwyd o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad.

18. Bydd cofnodi, copïo neu ddosbarthu recordiadau neu ddeunyddiau ysgrifenedig heb awdurdod yn cael eu hystyried yn drosedd ddisgyblu.

19. Fe'ch gwahoddir i nodi'ch achos yn ysgrifenedig cyn y gwrandawiad; Dylai'r datganiad hwn fanylu ar unrhyw ffactorau lliniaru yr hoffech i'r Pwyllgor eu hystyried. Eich cyfrifoldeb chi yw darparu unrhyw ddeunydd ysgrifenedig i gefnogi eich achos. Dylid anfon hyn at Ysgrifennydd y Pwyllgor heb fod yn llai na phum diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Bydd yr Ysgrifennydd yn dosbarthu'r deunydd ysgrifenedig a gyflwynwyd gennych i'r Pwyllgor ac i'r Parti sy'n Adrodd o leiaf dri diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad.

20. Yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos a natur yr honiad, a lle y bernir ei fod yn briodol gan Gadeirydd y Pwyllgor, gellir gwahodd y Parti sy'n Adrodd ac unrhyw berson arall y mae'r honiad wedi effeithio arnynt i gyflwyno Datganiad Effaith.

    - Os ydych yn derbyn cyfrifoldeb, gellir darparu'r Datganiad Effaith a'i drafod gyda chi cyn cytuno ar y canlyniad a'r gosb.
    - Os ydych yn gwadu cyfrifoldeb, bydd y Pwyllgor yn adolygu'r Datganiad Effaith os cadarnheir yr honiad yn unig, a chyn y penderfynir ar gosb, i'w cynorthwyo i benderfynu ar gosb briodol.

    Os bydd Datganiad Effaith yn cael ei gyflwyno a'i adolygu gan y Pwyllgor wrth benderfynu ar gosb, gellir darparu copi i chi gyda'r llythyr canlyniad.

21. Ni fydd y Pwyllgor yn derbyn deunydd ysgrifenedig nad yw ar gael i chi cyn gwneud ei benderfyniad.

22. Os bydd angen rhagor o wybodaeth ar y Pwyllgor er mwyn dod i benderfyniad, byddwch yn cael gwybod am unrhyw oedi.

23 Fel arfer, bydd canlyniad y Pwyllgor yn cael ei ddarparu i chi yn ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith i'r gwrandawiad drwy e-bost a/neu bost dosbarth cyntaf. Bydd y fath danfoniad yn cael ei ystyried yn ddigonol ac yn cyflawni ein dyletswydd yn llwyr i'ch hysbysu. Mewn rhai amgylchiadau, gall Cadeirydd y Pwyllgor benderfynu y dylech gael y canlyniad yn bersonol. Bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn rhoi gwybod i chi pan fydd hyn yn digwydd.

24. Os ydych yn Brentis/fyfyriwr Plismona Gweithredol bydd Deon y Gyfadran (neu enwebai) yn rhoi gwybod i'ch cyflogwr.

<u>Rheoliadau a Gweithdrefnau Cysylltiedig</u>
Rheoliadau Camymddwyn Anacademaidd
Gweithdrefn ar gyfer Ymchwiliadau Disgyblu
Gweithdrefn ar gyfer Ceisiadau am Adolygiad
Gweithdrefn ar gyfer Ceisiadau am Gynrychiolaeth Gyfreithiol
Gweithdrefn Asesu Risg
Canllawiau ar gyfer Cymhwyso Cosbau
Rheoliadau a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol
Rheoliadau a Gweithdrefn Cymorth i Astudio